OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 725 (Cy. 111)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Ffordd Ymadael Tua'r Gorllewin, Cyfnewidfa Llan-ffwyst, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 Mehefin 2023* |
| *Yn dod i rym* | *10 Gorffennaf 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A465, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Ffordd Ymadael Tua'r Gorllewin, Cyfnewidfa Llan-ffwyst, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Gorffennaf 2023.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 10 Gorffennaf 2023 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (*“the trunk road”*) yw’r darn o ffordd ymadael tua’r gorllewin cefnffordd yr A465 Castell-nedd i’r Fenni wrth Gyfnewidfa Llan-ffwyst yn Sir Fynwy.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 29 Mehefin 2023

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru